Pan fwyf yn hen a pharchus…

Erbyn canol y ganrif, mae'n bosib y bydd China yn gweld tro yng nghynffon ei pholisi un plentyn, yn ôl Rachel Nowak.

Cafodd ei alw'n ddelfryd demograffig – poblogaeth enfawr o oed gwaith yn cynnal nifer cymharol fychan o hen bobl a phobl ifanc – ac mae wedi bod o gymorth i yrru ffrwydrad economaidd China. Cyrhaeddodd China i'r man deniadol hwn yn sgil degawdau o deilwra cymdeithasol. Ddiwedd yr 1950au, hyrwyddodd Mao Zedong deuluoedd mawr er mwyn gyrru ei weledigaeth economaidd o Naid Fawr Ymlaen, ac erbyn 1976 roedd y boblogaeth bron wedi dyblu. Arweiniodd hyn at gyflwyno polisïau cynllunio teulu cenedlaethol er mwyn cyfyngu ar nifer y plant y gallai cyplau eu cael. Mae'r polisïau hyn, gydag ambell addasiad, yn parhau i fodoli. Cynlluniwyd hwy i arafu'r twf afreolus yn y boblogaeth, rhoi terfyn ar dlodi ac annog datblygiad economaidd. Roedd yn gynllun rhannol lwyddiannus: heddiw mae bron i 72% o bobl China o oed gwaith.

Ond mae'n bosibl bod ymgais y wlad i ostwng cyfraddau genedigaethau – sydd yn cael ei adnabod y tu allan i China fel y polisi un plentyn – wedi hau hadau trychineb demograffig enfawr. Pan fydd rhieni heddiw yn heneiddio, sut fydd eu plant yn gallu eu cynnal?

Mae rhywbeth tebyg yn digwydd mewn rhannau o Ewrop ac Asia, lle mae cyfraddau genedigaethau sy'n disgyn yn codi cyfartaledd oedran y boblogaeth. Yn China, fodd bynnag, bydd y newid hwn yn arbennig o ddramatig. Mewn papur i'w gyhoeddi'r mis hwn, mae Wolfgang Lutz, demograffydd yn Sefydliad Rhyngwladol Dadansoddi Systemau Cymhwysol yn Laxenburg, Awstria, yn darogan y bydd y gyfradd o rai dros 65 oed yn erbyn y rhai 15 – 65 oed yn China bron yn treblu rhwng 2010 a 2035. Mae hyn yn golygu mai tri pherson yn unig o oed gwaith fydd ar gyfer pob person dros 65, o'i gymharu â 10 heddiw (*Vienna Yearbook of Population Research 2007*).

Beth fydd ffawd dynion ifanc, sengl China?

© Topfoto



© Topfoto

Felly a ddylai China lacio neu ddileu'r polisi un plentyn er mwyn osgoi'r argyfwng demograffig ar y gorwel? Mae rhai demograffwyr yn dweud bod perygl i'r wlad ddioddef chwalfa economaidd os na fydd hyn yn digwydd. Mae eraill yn dadlau y dylai'r polisi aros yn ei le, er mwyn atal poblogaeth sydd eisoes yn enfawr rhag gordyfu y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Yn y pen draw, serch hynny, mae unrhyw benderfyniad yn ddibynnol ar wybodaeth am nifer y bobl sydd eisoes yn China, a faint o fabanod sy'n cael eu geni bob blwyddyn. Mae polisïau teilwra cymdeithasol y wlad yn gwneud hyn yn anodd.

Mae'r polisi un plentyn, fel mae'n cael ei alw, mewn gwirionedd yn gasgliad o reoliadau rhanbarthol gyda nifer o eithriadau. Mewn rhai rhanbarthau, nid yw lleiafrifoedd ethnig penodol yn cael eu cynnwys, er enghraifft, ac fe all cyplau sydd wedi ailbriodi gael plentyn gyda'i gilydd hyd yn oed os oes ganddynt blant o berthynas flaenorol. Mewn gwirionedd, tua thraean o'r bobl

PA MOR GYFLYM FYDD CHINA YN HENEIDDIO?

Mae pob person dros 65 heddiw yn cael ei gynnal gan 10 person o oed gwaith. Erbyn 2035 bydd y ffigur hwnnw yn disgyn i 3 yn unig. Mae ansicrwydd o ran cyfraddau ffrwythlondeb yn ei gwneud yn anodd darogan i'r dyfodol pell.



Dynion, dynion, dynion

Mae'r polisi un plentyn a blaenoriaeth ddiwylliannol i fechgyn wedi gyrru nifer o rieni i ddewis erthyliad ar sail rhyw, gan greu cymaint o brinder merched nes ei bod yn bosib, erbyn 2025, y bydd 30 miliwn yn llai o ferched na dynion rhwng 20 a 49 oed, a 47 miliwn yn llai erbyn 2050, yn ôl astudiaeth ddiweddar a gyhoeddwyd yn China (*Market and Population Analysis*, cyfrol 1, tud. 17).

Mae'n sefyllfa ddifrifol. Bydd llai o ferched yn gostwng y cyfraddau genedigaethau cenedlaethol ymhellach, gan osod baich ychwanegol ar gymdeithas sydd eisoes yn heneiddio. Mae'n bosib y bydd yna hefyd effaith gynyddol ar iechyd meddwl. "Rydym yn poeni y bydd dynion sengl yn cael eu hymyleiddio mewn ardaloedd gwledig, tlawd, ac am yr effaith wirioneddol y bydd hyn yn ei gael ar eu rhieni, sy'n dibynnu arnynt, ar eu cymunedau, ac ar eu lles seicolegol," meddai Li Shuzhuo o'r Sefydliad Astudiaethau Poblogaeth a Datblygiad ym Mhrifysgol Xi'an Jiaotong yn Xi'an.

Gyda newid syfrdanol eisoes i gymdeithas China, mae'n anodd darogan goblygiadau mwy cynnil cymdeithas orlawn o ddynion yn y dyfodol. Mae rhai yn dyfalu y bydd yn arwain at gyfunrhywiaeth ehangach a mwy agored. Mae eraill yn pryderu y bydd gormodedd o ddynion ifanc llawn testosteron yn dod â mwy o drais, trosedd ac afiechydon rhywiol i'r wlad.

Byddai'n well gan y llywodraeth beidio darganfod yr ateb. Yn 2003 lansiwyd y project "Gofal dros Ferched", sy'n cael ei redeg gan Gomisiwn Poblogaeth a Chynllunio Teulu Cenedlaethol China. Cyflwynodd y cynllun bolisïau "o blaid merched" mewn 24 o siroedd oedd â'r gormodedd mwyaf o fechgyn yn cael eu geni (gweler y map ar y chwith). Ymysg y mesurau oedd gwaharddiad ar erthyliad ar sail rhyw; gwell gofal iechyd i'r fam a'r plentyn; ysgogiad ariannol; a hyrwyddo cydraddoldeb rhyw. Y canlyniad oedd i nifer y bechgyn a anwyd i bob 100 o ferched syrthio o gyfartaledd dros 130 i lai na 120.

Llynedd, ehangodd y llywodraeth yr ymgyrch Gofal Dros Ferched i fod yn genedlaethol, gyda'r nod o ddychwelyd y gyfradd genedigaethau i'r normal o fewn 15 mlynedd. Yn y cyfamser, efallai y bydd yn rhaid i China ddod o hyd i ffordd i ofalu am ei bechgyn hefyd.

GORMOD O FECHGYN

Nifer y bechgyn i bob 100 o ferched 1-4 oed yn 2000



Ffynhonnell: CU, ZHONGWEI ZHAO A FEI GUO

mewn oed atgenhedlu sydd wedi'u cyfyngu i gael un plentyn yn unig. Mae llymder gweithredu'r rheoliadau yn amrywio mewn gwahanol ranbarthau. Dull a ddefnyddir yn eang yw addysgu'r cyhoedd am fuddiannau cael un plentyn yn unig, ac mewn rhai ardaloedd mae dirwyon a chosbau eraill am gael gormod o blant. Yn y dyddiau cynnar, yn yr ardaloedd mwyaf llym, gorfodwyd merched oedd yn cael mwy nag un plentyn i gael erthyliad neu sterileiddiad – dulliau sydd erbyn hyn wedi'u gwahardd.

Er y cosbau, mae rhesymau da dros anwybyddu'r rheolau. Er bod y llywodraeth yn ddiweddar wedi sefydlu cynllun pensiwn gwladwriaethol, mae mwyafrif y bobl mewn ardaloedd gwledig yn tybio y byddant yn ddibynnol ar eu plant – ac yn bwysicach, eu meibion – i ddarparu ar eu cyfer yn eu henaint. Felly yn aml, mae cyplau yn dewis peidio â chofrestru genedigaethau, yn arbennig os merch yw'r cyntaf-anedig.

Mae cyfanswm nifer y "babanod coll" hyn yn anhysbys, ac mae wedi arwain at wahaniaethau enfawr yn yr amcangyfrifon am gyfradd genedigaethau. O'r tua 30 amcangyfrif a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer 2000, cyfrifiad cenedlaethol China sydd isaf, gyda 1.22 o blant ar gyfer pob merch. Mae hyn lawer yn is na lefelau olyniaeth, ac nid oes fawr neb yn ei gredu. Mae amcangyfrifon eraill yn gosod y ffigur ar hyd at 2.3 o blant, gan ddefnyddio amrywiol feini prawf i ystyried y babanod coll.

POBLOGAETH CHINA, 2050

Diolch i ddegawdau o gyfyngiadau ar gynllunio teulu, bydd gan China boblogaeth hŷn yn 2050. Mae ansicrwydd o ran cadarnhau gwir gyfradd ffrwythlondeb China yn ei gwneud yn anodd darogan graddfa'r broblem.



Poblogaeth ddisgwyliedig pob grŵp oedran 1 flwyddyn (miliynau)

Mae Comisiwn Poblogaeth a Chynllunio Teulu Cenedlaethol China yn honni cyfradd genedigaethau o 1.8, ffigur sy'n oramcangyfrif peryglus yn ôl rhai demograffwyr, ac a all olygu bod y llywodraeth yn eistedd yn ôl.

"Mae bob arolwg poblogaeth cenedlaethol yn nodi ffigur is na 1.6, ac mae'r mwyafrif o ysgolheigion yn credu ei fod rhwng 1.6 ac 1.7," meddai Qiang Ren o'r Sefydliad Ymchwil Poblogaeth ym Mhrifysgol Beijing. Mae Zhongwei Zhao, demograffydd ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia, Canberra, yn cytuno. "Pe byddech yn credu bod y gyfradd genedigaethau tua 2, yna ni fyddai angen llacio'r polisi cynllunio teulu cyfredol," meddai. "Rydym yn poeni bod [cyfraddau genedigaethau] eisoes o bosib wedi syrthio i 1.6 neu is. Os yw hynny'n gywir, ac os bydd yn parhau am 20 neu 30 o flynyddoedd, bydd gan China broblemau enfawr. Mae angen i lywodraeth China ystyried addasu'r polisi ar unwaith."

Mae'r amcangyfrifon am gymarebau bechgyn–merched, a fydd hefyd yn effeithio ar gyfraddau genedigaethau yn y dyfodol, yr un mor amrywiol. Y gymhareb ryw ddynol naturiol yw bod rhwng 103 a 107 o fechgyn yn cael eu geni ar gyfer bob 100 o ferched. Mae amcangyfrifon yn China yn amrywio o 106 i 123, gan ddibynnu ar bwy sy'n cyfrif (gweler "Dynion, dynion, dynion").

Yn y pen draw, fodd bynnag, mae eisoes yn rhy hwyr i atal cymdeithas China rhag heneiddio'n gyflym, meddai Ren, a fu'n gweithio gyda Lutz ar ei sylwadau am ddibyniaeth oedran yn y dyfodol. Ond mae'n teimlo y byddai cyfraddau genedigaethau uwch yn medru lleihau'r ergyd. "Yn sgil ein hastudiaeth, credwn y dylai llywodraeth China ystyried llacio'r polisïau cynllunio teulu cyfredol," meddai Ren.

Yn y blynyddoedd diwethaf, gwnaed rhai newidiadau gan y llywodraeth. Mewn nifer o ranbarthau, gall cyplau sydd eu dau yn unig blant gael ail blentyn eu hunain, er enghraifft. Ond wrth i China ddatblygu ymhellach, ac wrth i'r gyfradd genedigaethau syrthio'n is fyth yn sgil trefoli, gwell addysg i ferched a chost uwch magu plant, mae rhai demograffwyr yn poeni y bydd hyn yn rhy ychydig, ac yn rhy hwyr.

Graffiau

© Lutz, W., S. Scherbov, G.Y. Cao, Q. Ren, ac X. Zheng. 2007. "China's uncertain demographic present and future." Vienna Yearbook of Population Research 2007: 37-59.

Cydnabyddiaethau

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Philip Allan Updates o *Geography Review*, Medi 2007: *Investigating 'studentification'.*